# Crynodeb o hunan arfarniad o Addysg Grefyddol yn Ysgol Waunfawr

(Gweler canllawiau pynciol Ffeil Hunan Arfarnu CYNNAL 2005)

| **Cwestiwn 1 : Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?** |
|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a dadansoddiad o asesiadau athrawon. |
| **Barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr Gradd:2** |
| Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o gredoau ac arferion crefyddol y disgyblion yn dda. Cant gyfleoedd i ymweld â mannau addoli a chyfarfod arweinwyr crefyddol lleol yn rheolaidd. Gallant ddisgrifio nodweddion dathliadau a defodau crefyddol, straeon o lyfrau sanctaidd a hanesion am Iesu. Mae eu gwybodaeth am straeon o grefyddau eraill y byd yn datblygu'n dda. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o brofiadau bywyd a'r cwestiynau a godir ganddynt yn dda. Maent yn deall pwysigrwydd reolau crefyddol a dangosant ddealltwriaeth dda iawn o ystyr perthyn i gymuned Gristnogol, pwysigrwydd gofalu am eraill a pharchu byd natur. Mae eu gallu i werthuso drwy godi cwestiynau ysbrydol a'u trafod yn datblygu'n dda. Maent yn ymwybodol bod amryw o atebion i gwestiynau mawr bywyd. Mae eu gallu i ddefnyddio ystod o adnoddau er mwyn cynnal ymchwiliad hefyd yn datblygu. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw dros y ddwy flynedd nesaf?** |
| • Rhoi mwy o bwyslais ar gwestiynau mawr bywyd yn unol â gofynion CC 2008.<br>• Ymgorffori strategaethau medrau meddwl i'r cynlluniau gwaith newydd. |

**Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.**

| **Cwestiwn 2 : Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?** |
|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a gwerthusiad o gyfnodau addoli ar y cyd a gwersi ABCh.<br>• Disgwylir cyfeiriad yma at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. |
| **Barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth Gradd :2** |
| • Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn rhagorol.<br>• Mae amcanion clir ac ymdrechir i'w gwireddu yn yr ethos ofalgar sy'n cwmpasu bywyd a gwaith yr ysgol.<br>• Addysgir addysg grefyddol yn unol â Maes llafur cytûn AALl Gwynedd ar draws yr ysgol. Gwneir trefniadau effeithiol ar gyfer y disgyblion sy'n cael eu heithrio o'r gwasanaethau boreol. Trafodir cynnwys y cwricwlwm addysg grefyddol yn rheolaidd gyda'r rhieni cyn eu cynnwys neu eu heithrio o'r gwersi.<br>• Ceir sesiynau addoli sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol ac yn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion ystyried a myfyrio ar agweddau ysbrydol a phersonol.<br>• Ceir anerchiadau rheolaidd gan y Gweinidog Lleol yn y gwasanaethau a chyfranna'r Ficer lleol ar rhai achlysuron.<br>• Mae gofynion ABaCh wedi'u mapio yn Fframwaith Newydd yr ysgol. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw yr ysgol dros y flwyddyn nesaf?** |
| • Parhau i ddiwygio cynlluniau gwaith ar gyfer Medi 09 – Haf 10 i ymgorffori gofynion CC 2008.<br>• Ymgorffori Maes Llafur newydd Addysg Grefyddol (CYSAG) i'r cynlluniau gwaith (Pasg 09). |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwblhau'r arfarniad:** | **Mawrth 4ydd, 2009** |
| **Arwyddwyd: (Pennaeth)** | **Gwenan Dafydd** |